


MILITARY PREPARATION COLLEGE
EST.1999

# PROSBECTWS CYMRU 2018

Ysbrydoli pobl ifanc rhwng 16 a 19 oed i ddatblygu eu ffitrwydd, cyflawni cymwysterau a sgiliau ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol

## DECHREUWCH HEDDIW

0330 111 3939 mpct.co.uk #DewiswchMPCT

ARMED FORCES COVENANT

DARPARWR HYFFORDDIANT Y FLWYDDYN 2017 Ofsted Outstanding

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| COLEG PARATOI AR GYFER Y FYDDIN (MPC) | **3** |
| CROESO GAN Y RHEOLWR GYFARWYDDWR | **4** |
| LLEOLIADAU | **5** |
| HYFFORDDIANT CORFFOROL | **6** |
| IECHYD A LLESIANT | **6** |
| HYFFORDDWYR YR MPC | **7** |
| HYFFORDDIANT MILWROL | **8** |
| SYSTEM BIB MPC | **9** |
| CYMWYSTERAU | **10** |
| DILYNIANT MPCT | **12** |
| CYNNYDD DYSGWR | **13** |
| CYMORTH ARIANNOL | **14** |
| YR YMDDIRIEDOLAETH CYMHELLIANT A DYSGU | **15** |
| EIN CANOLFAN GYSWLLT | **16** |
| GWISG | **17** |
| CWESTIYNAU CYFFREDIN | **18** |
| EIN DARPARIAETHAU ERAILL | **19** |




# COLEG PARATOI AR GYFER Y FYDDIN

Yn y Coleg Paratoi ar gyfer y Fyddin, credwn drwy arweinyddiaeth ac addysgu rhagorol, y gall pawb gyflawni eu nodau. Rydym wedi cael arolygiad gan Ofsted a dyfarnwyd "rhagorol" i ni ym mhob maes – ym maes canlyniadau ar gyfer myfyrwyr, dysgu ac asesu, arwain a rheoli ac ym maes ansawdd yr addysgu. Dyfarnwyd gwobr TES am ddarparwr hyfforddiant y flwyddyn i ni hefyd yn 2017, yn gydnabyddiaeth am y canlyniadau rhagorol y mae ein myfyrwyr yn eu cyflawni ym mhob un o'n Colegau.

Mae pob Hyfforddwr yn y Coleg wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog ac mae pob un ohonynt yn fodelau rôl i'n myfyrwyr. Maent wedi cael hyfforddiant gan y goreuon ac felly, yn eu tro, mae ein myfyrwyr yn dysgu gan y goreuon. Mae'r ymdeimlad o falchder ymhlith ein staff wrth ddatblygu, hyfforddi a chefnogi ein myfyrwyr hefyd wedi cael cydnabyddiaeth yn rhestr y Times o'r 100 o Lefydd Gorau i Weithio Iddynt yn 2017.

Mae graddedigion y rhaglen sy'n penderfynu ymuno â'r Lluoedd Arfog yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus na'r rhai sy'n cofrestru'n uniongyrchol. Bydd gan y myfyrwyr sy'n dewis dilyn opsiynau gyrfaoedd eraill y sgiliau craidd i ategu eu llwyddiant. Gyda'r gyfres hon o sgiliau a chymwysterau newydd, mae drysau a fu unwaith ar gau bellach yn lled agored iddynt.

## Ein Cenhadaeth

Ein cenhadaeth yw ymgysylltu, ysgogi ac addysgu er mwyn sicrhau rhagoriaeth i bawb.

## Ein Hethos

Rydym yn creu amgylchedd sy'n ofalgar, cefnogol, diogel a chadarnhaol.

## Ein Gweledigaeth

Gweledigaeth MPCT yw darparu safonau dysgu rhagorol ym mhob rhanbarth o'r Deyrnas Unedig. Bydd hyn yn cefnogi pobl ifanc i gyrraedd eu potensial a symud ymlaen i'w gyrfa neu lwybr dysgu dewisol.

## Ein Gwerthoedd Craidd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tryloywder | Uniondeb | Diwydrwydd | Gonestrwydd |
| Ymroddiad | Empathi | Teyrngarwch | Cysondeb |
| Balchder | Gweithio mewn tîm | Cadernid | Parch |



# CROESO GAN Y RHEOLWR GYFARWYDDWR






Ers 1999, mae MPCT wedi dangos y gall pobl ifanc o bob math o gefndir lwyddo yn yr amgylchedd cywir, ac maent yn gwneud hynny. Rydym wedi gweld a chefnogi cymaint o bobl ifanc sydd ar adeg heriol eu bywydau, yn pontio o blentyndod i fod yn oedolyn.

Yn MPCT, credwn drwy arweinyddiaeth ac addysgu rhagorol, gall pawb gyflawni eu nodau. Rydym wedi cael arolygiad gan Ofsted a dyfarnwyd "rhagorol" i ni ym mhob maes – ym maes canlyniadau ar gyfer myfyrwyr, dysgu ac asesu, arwain a rheoli ac ym maes ansawdd yr addysgu. Cawsom hefyd ein cydnabod gan TES fel Darparwr Hyfforddiant y Flwyddyn yn 2017 am y canlyniadau rhagorol y mae ein myfyrwyr yn eu cyflawni ym mhob un o'n colegau.

Mae pob Hyfforddwr yn y coleg wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog Prydeinig ac mae pob un ohonynt yn fodelau rôl i'n myfyrwyr. Maent wedi cael hyfforddiant gan y goreuon ac felly, yn eu tro, mae ein myfyrwyr yn dysgu gan y goreuon. Mae'r ymdeimlad o falchder y mae ein staff yn ei deimlo wrth ddatblygu, hyfforddi a chefnogi ein myfyrwyr hefyd wedi cael cydnabyddiaeth gan fod MPCT wedi'i gynnwys yn rhestr y Times o'r 100 o Lefydd Gorau i Weithio iddynt yn 2017 am y tro cyntaf.

Mae graddedigion y rhaglen sy'n penderfynu ymuno â'r Lluoedd Arfog Prydeinig yn fwy tebygol o lawer o fod yn llwyddiannus na'r rhai sy'n cofrestru'n uniongyrchol. Bydd gan y myfyrwyr sy'n dewis dilyn opsiynau gyrfaoedd eraill y sgiliau craidd i ategu eu llwyddiant. Gyda'r gyfres hon o sgiliau a chymwysterau newydd, mae drysau a fu unwaith ar gau bellach yn lled agored iddynt. Mae'r rhan fwyaf yn cyflawni llawer mwy na'r disgwyl.

Bydd ymweliad ag unrhyw safle MPCT yn rhoi cipolwg ar yr hyn a ystyrir yn addysg unigryw a gwerth chweil.



Huw Lewis MBE



# LLEOLIADAU

## LLOEGR

| | |
|---|---|
| Aldershot | **DO** |
| Birmingham | |
| Bishop Auckland | **DO** |
| Bryste | **DO** |
| Battersea | **DO** |
| Croydon | **DO** |
| Dudley | **DO** |
| Eastbourne | **DO** |
| Edgware | **DO** |
| Caerloyw | **DO** |
| Ynys Wyth | |
| Lerpwl | **DO** |
| Newcastle | **DO** |
| Portsmouth | **DO** |
| Southampton | **DO** |
| South Shields | **DO** |
| Teesside | **DO** |
| Walsall | **DO** |
| Wolverhampton | **DO** |

## CYMRU

Bangor
Pen-y-bont ar Ogwr
Caerdydd
Ysgolion Caerdydd
Chwaraeon Caerdydd
Merthyr Tudful
Casnewydd
Chwaraeon Rhondda
Ysgolion Rhymni
Academi Chwaraeon
Prentisiaethau
Abertawe
Wrecsam




**DO -** DO - cyrsiau Darpariaeth i Oedolion sydd ar gael i bobl rhwng 19 a 23 oed mewn lleoliadau dewisol.



# HYFFORDDIANT CORFFOROL

Mae manteision ymarfer corff mor bwysig i'ch datblygiad, ac felly rydym yn rhoi pwyslais mawr arno ac o ganlyniad, byddwch yn cyflawni rhyw fath o weithgaredd bob dydd. Byddwn yn eich dysgu sut i fwyta'n iawn, sut i wneud ymarfer corff yn effeithiol a gofalu amdanoch chi eich hun. Bydd hyn yn gwneud i chi deimlo'n gryfach, bod yn iachach, edrych yn well a chyflawni mwy. P'un a ydych yn penderfynu dilyn gyrfa yn y gwasanaethau mewn lifrau ai peidio, bydd y profiad hwn yn eich rhoi ar ben ffordd am oes.

Sesiynau hyfforddiant corfforol **bob dydd**

Cyfleoedd **Hyfforddiant Antur**

Sgrinio iechyd

Asesiadau Ffitrwydd er mwyn olrhain **eich cynnydd**

Amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer **pob gallu**

Cynllun hyfforddiant pwrpasol i ategu eich cais i'ch **llwybr gyrfa** dewisol

# IECHYD A LLESIANT

Mae gan bob un o'n hyfforddwyr brofiad a gwybodaeth o ran helpu pobl i fyw bywydau iach. Byddant yn gallu cefnogi eich nodau a rhoi cyngor i chi er mwyn sicrhau bod eich corff yn cael y pethau cywir er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau posibl. Byddant hefyd yn gallu eich helpu i fagu a cholli pwysau yn unol â gyrfa yn y gwasanaethau mewn lifrau.

Clwb brecwast **AM DDIM**

Cynllun bwyta'n iach **AM DDIM**

Cyngor **AM DDIM** ar golli a magu pwysau

Gweithgareddau awyr agored **bob dydd** er mwyn hyrwyddo llesiant

Gweithgareddau **adeiladu tîm** er mwyn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol

Cyfleoedd i gymryd rhan mewn **chwaraeon**



# HYFFORDDWYR YR MPC

Mae pob un o'n hyfforddwyr yn gyn-bersonél gyda'r Lluoedd Arfog Prydeinig ac maent yn cynnig cyfoeth o brofiad i gefnogi a chynghori myfyrwyr drwy gydol eu hamser yn y coleg.

Byddant yn eich helpu i gyflawni **cymwysterau**

Byddant yn pennu **targedau** realistig ar eich cyfer

Byddant yn defnyddio eu **cefndir milwrol** i wneud dysgu'n llawn hwyl a diddorol

Byddant yn gwella eich **ffitrwydd**

Byddant yn eich cefnogi i symud ymlaen i'ch **nod gyrfa** dewisol

**Cymorth** ac **arweiniad** arbenigol





# HYFFORDDIANT MILWROL

Yn y Coleg Paratoi ar gyfer y Fyddin, gallwch gofrestru ar gwrs llawn amser neu ran amser fel y gallwch weithio ochr yn ochr â'ch addysg a'ch hyfforddiant. Mae ein cyrsiau wedi'u cynllunio i sicrhau y caiff pob Dysgwr y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddechrau ar eu taith tuag at yrfa foddhaus yn y Lluoedd Arfog Prydeinig neu i symud ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant.

Yn y coleg, bydd y Dysgwyr yn dilyn trefn wythnosol o weithgareddau a chwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant galwedigaethol a sgiliau, hyfforddiant corfforol, diwrnodau hyfforddiant milwrol ac asesiadau.

Mae ein cwricwlwm yn cwmpasu ystod eang o ddulliau datblygu sgiliau, gan gynnwys siarad cyhoeddus. Caiff y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen eu magu drwy baratoi a darparu sesiynau ymgyfarwyddo a chyflwyniadau. Bydd eich cymheiriaid a'ch Hyfforddwr yn eich cefnogi bob cam o'r ffordd wrth i chi fagu mwy o hyder.

Mae sgiliau datrys problemau ac arwain yn hanfodol yn y Lluoedd Arfog ac mewn cyflogaeth sifil. Byddwch yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau datrys problemau, ar y maes ac mewn gwersi academaidd. Bydd y gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm yn hanfodol i'ch llwyddiant. Mae digon o gyfleoedd arwain yn y coleg, ac rydym yn annog pob un o'n myfyrwyr i herio eu hunain i fod yn fwy na phobl gyffredin.

**Ymweliadau** milwrol

Cymorth personél milwrol

Tactegau lefel isel

Hyfforddiant **cwrs rhwystrau**

Cystadleuaeth flynyddol y coleg cyfan

Gweithgareddau sy'n ategu eich cais i ymuno â'r lluoedd arfog



# SYSTEM BIB MPC

Yma yn y Coleg Paratoi ar gyfer y Fyddin mae sbectrwm mor eang o ran gallu corfforol ac rydym yn defnyddio System Bib i sicrhau y caiff pawb eu hyfforddi.

Gan fod ymarfer corff yn cyfrif am 50% o'r cwricwlwm, mae'n hollbwysig bod ein Dysgwyr, nid yn unig yn cymryd rhan mewn ymarfer corff, ond hefyd yn ei fwynhau.



## GLAS

Rhoddir y bib hwn i ddechreuwr. Efallai na fyddant wedi gwneud llawer o ymarfer corff pan fyddant yn ymuno â MPCT a bydd angen cymorth arnynt i gyrraedd safonol gofynnol ymarfer corff y coleg. Mae'n bosib y gallant ei chael hi'n anodd rhedeg ac nid oes ganddynt lawer o gryfder yn rhan uchaf eu corff. Dylid dilyn camau bob amser er mwyn sicrhau eu bod yn frwdfrydig ac yn mwynhau'r sesiynau ymarfer corff.



## COCH

Rhoddir y bib hwn i Ddysgwr sydd â lefel ffitrwydd ganolradd. Mae'n bosibl y bydd wedi bod ar y cwrs am fwy na 4 wythnos a bod ei ffitrwydd wedi gwella o ganlyniad i hynny. Mae wedi dangos ei fod yn gallu gwella a dylid cymryd camau i'w helpu i bennu nod ar gyfer y lefel nesaf.



## GWYRDD

Rhoddir y bib hwn i Ddysgwr sydd â lefel ffitrwydd uwch. Byddent naill ai wedi symud drwy'r system bib neu wedi ymuno â'r coleg gyda lefel ffitrwydd uchel eisoes. Bydd angen i'r rhai sy'n gwisgo bibiau gwyrdd fod yn frwdfrydig ac yn cael eu herio er mwyn cael budd llawn o'r rhaglen ymarfer corff.



# CYMWYSTERAU

Yn y Coleg Paratoi ar gyfer y Fyddin, gall Dysgwyr gofrestru ar gyfer cwrs llawn amser neu ran amser fel y gallant weithio ochr yn ochr â'u haddysg a'u hyfforddiant. Mae ein cwrs wedi'i gynllunio i roi'r sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddechrau ar eich taith tuag at yrfa gwerth chweil neu barhau ag addysg neu hyfforddiant.

**Hyfforddeiaeth – Ymgysylltu**

Mae ein cwrs Ymgysylltu yn rhan o'r rhaglen Hyfforddeiaeth ac mae'n ffordd wych o gael blas ar y Coleg Paratoi ar gyfer y Fyddin. Bydd angen i chi fynychu'r cwrs am 21 awr yr wythnos (3.5 diwrnod) a byddwch yn cael budd o gael mwy o gymorth i fagu hyder ar y cwrs cyn i chi symud ymlaen i Hyfforddeiaeth Lefel 1.

Mae Cymwysterau Sgiliau Hanfodol yn rhan o'r cwricwlwm ar y Rhaglen Ymgysylltu a bydd yn eich helpu i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnoch er mwyn symud ymlaen i Hyfforddeiaeth Lefel 1.

Gallwch gyflawni'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol canlynol:

- Lefel Mynediad 1, 2 a 3 mewn Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol
- Lefel Mynediad 1, 2 a 3 mewn Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol

**Hyfforddeiaeth – Lefel 1**

Bydd ein cwrs Lefel 1 yn eich helpu i ymchwilio, paratoi a chwblhau'r broses o wneud cais ar gyfer gyrfa yn y gwasanaethau mewn lifrau, gan gynnwys y Fyddin Brydeinig, y Llynges Frenhinol, y Llu Awyr Brenhinol, yr Heddlu, y Gwasanaeth Ambiwlans a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Byddwch yn mynychu'r cwrs am 30 awr (5 diwrnod) yr wythnos.

Yn ystod Lefel 1, byddwch yn parhau i weithio drwy eich cymwysterau Sgiliau Hanfodol, yn ogystal â gweithio tuag at Ddyfarniad, Tystysgrif neu Ddiploma mewn Gwasanaethau Cyhoeddus.

Gallwch gyflawni'r cymwysterau Sgiliau Hanfodol canlynol:

- Lefel Mynediad 3, Lefel 1 a Lefel 2 mewn Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol.
- Lefel Mynediad 3, Lefel 1 a Lefel 2 mewn Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol.

Chwilio am swydd.
Ymddygiad yn y gwaith.
Llesiant a ffitrwydd ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus.
Prosiect grwp Gwasanaethau Cyhoeddus.
Gyrfaoedd Gwasanaethau Cyhoeddus.
Gwella iechyd a ffitrwydd er mwyn gwneud cais am swydd yn y Gwasanaethau Cyhoeddus mewn Lifrai.




Sgiliau personol ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus.
Rheoli eich iechyd yn y gwaith.
Cyflwyniad i ddiogelwch yn y gwaith ym maes Gwasanaethau Cyhoeddus.
Gwaith tîm ymarferol yn y Gwasanaethau Cyhoeddus.
Darllen mapiau a defnyddio mapiau arolwg ordnans.
Cynllunio a chymryd rhan mewn digwyddiad.
Datblygu sgiliau personol ar gyfer arwain.
Gweithio fel gwirfoddolwr.

Byddwch yn meithrin y sgiliau, yr hyder a’r wybodaeth sydd eu hangen er mwyn symud ymlaen i astudio ymhellach neu er mwyn gwneud cais am swydd ar gyfer rôl gyhoeddus neu wasanaeth milwrol o’ch dewis.

City & Guilds

Pearson






# DILYNIANT MPCT

Yma yn MPCT, rydym yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar Ddysgwyr i symud ymlaen i'w gyrfa ddewisol. Mae'r cwrs wedi'i deilwra i chi. Bydd eich cynnydd yn dibynnu ar eich gallu personol a pha yrfa yr hoffech fynd amdani.

MILITARY PREPARATION COLLEGE
EST.1999

**DILYNIANT**

1. Nodi eich dyheadau gyrfa a phennu nodau realistig
2. Cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ategu eich dewis gyrfa
3. Gwella eich hyder, hunan-barch a sgiliau cyfathrebu
4. Cymorth ac arweiniad i greu CV
5. Cefnogi'r gwaith o ddatblygu technegau cyfweliad a siarad cyhoeddus
6. Eich helpu i gael swydd rhan amser
7. Asesu a chefnogi eich datblygiad yn rheolaidd
8. Cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ategu eich dewis gyrfa



# CYNNYDD DYSGWR

Mae llawer o lwybrau y gallwch eu dilyn pan ddaw eich amser gyda MPCT i ben. P'un a ydych am symud ymlaen i'r Fyddin, addysg bellach neu yrfa sifil, gall MPCT eich helpu i gyrraedd eich nod. Dyma rai enghreifftiau gan gyn Ddysgwyr.





Brandon Blyth-Hooper

"Des i i MPCT i wella fy ffitrwydd, hyder a chyflwr meddwl, gyda'r nod o ymuno â'r Llynges Frenhinol. Ar fy niwrnod cyntaf yn MPCT, roeddwn yn nerfus ac yn ofnus iawn gan ei fod yn amgylchedd newydd i mi, a byddai'n rhaid i mi wneud ffrindiau newydd. Roeddwn yn wan iawn pan ddechreuais ac ar ôl 10 mis, rwy'n gryfach, yn gyflymach ac yn fwy ffit o lawer. Mae MPCT wedi fy helpu i wella fy hyder ac wedi fy ngwneud i'n gryfach yn feddyliol. Rwyf bellach wedi cael fy nerbyn i astudio Cwrs Iechyd a Gwyddor Chwaraeon ym Mhrifysgol Solent, lle byddaf yn astudio ffitrwydd a hyfforddiant personol yn ogystal ag ymuno â'r timau Rygbi a Phaffio."




Bradley LeBeau-Roe

"Mae blwyddyn yn MPCT wedi gwneud byd o wahaniaeth i mi. Rwyf wir wedi mwynhau pob diwrnod rwyf wedi treulio yn y coleg. Roeddwn yn hoff iawn o'r ffordd yr oedd gan yr hyfforddwyr ffydd ynof i, yn fy nhrin yn gyfartal, yn siarad â mi fel oedolyn ac yn fy mharchu. Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd ac wedi cyflawni cymwysterau nad oeddwn yn credu y byddwn fyth yn eu cyflawni. Mae MPCT wedi fy helpu i gael lle yn AFC Harrogate gan weithio tuag at fod yn rhan o'r Gatrawd Parasiwt. Ym mis Awst 2018, es i i'm Seremoni Ymadael."



Asmita Rai

"Rwyf wedi gweithio'n galed iawn i gyflawni fy nhystysgrif mewn Sgiliau Cyflogadwyedd ac wedi cyflawni lefel 1 a 2 mewn Sgiliau Saesneg Swyddogaethol, a hynny wrth sefyll fy arholiadau TGAU Saesneg. Mae ymarfer corff bob amser wedi bod yn un o'm cryfderau. Dywedodd fy hyfforddwyr fy mod yn un o'r athletwyr benywaidd cryfaf yn y coleg. Yn ddiweddar, es i i ganolfan asesu yn Pirbright a chefais radd 1. Dywedodd y cyfwelydd yn Pirbright fy mod i'n rhagorol a'r ymgeisydd benywaidd gorau maent wedi gweld ers amser hir, a oedd wedi gwneud i mi deimlo'n falch iawn ohona i fy hun. Rwy'n ymuno â Chorfflu Awyr y Fyddin ac yn aros am ddyddiad dechrau"




Natasha Kirk

"Ymunais â MPCT yn ôl yn 2016. Roeddwn yn gobeithio gwella fy ffitrwydd cyn i mi wneud cais i fynd i'r Fyddin, ond mae MPCT wedi rhoi llawer mwy na hynny i mi. Mae wedi dysgu gwerthoedd craidd i mi a fydd gennyf i'r dyfodol. Pan ddechreuais, doeddwn i ddim yn teimlo'n hyderus iawn a doeddwn yn siwr sut i wthio fy hun i gyflawni pethau gwych. Pan oeddwn yn MPCT yn 2017, fi oedd y ferch gyflymaf i redeg y ras milltir a hanner yn ogystal â'r ras traws gwlad. Pan oeddwn yn MPCT, cefais lawer o gymorth gan bob aelod o'r staff, yn enwedig staff Thacker sydd wedi bod yn ysbrydoliaeth wirioneddol i mi. Rwyf wrth fy modd fy mod wedi cael cynnig swydd yn y brif swyddfa. Roeddwn wedi siomi'n fawr pan ddygais na fyddaf yn cael fy nerbyn i'r Fyddin ar hyn o bryd o ganlyniad i faterion iechyd, ond mae bod yn rhan o'r tîm yn y brif swyddfa yn arbennig iawn."

# AR BETH Y GALLAF WARIO FY LWFANS HYFFORDDI?

## Mae Lwfans Hyfforddi 16-19 yma i'ch helpu


Bydd pob Dysgwr yng Nghymru yn cael Lwfans Hyfforddi rhwng £30 a £50 er mwyn helpu gydag unrhyw gostau. Mae gan Ddysgwyr hefyd hawl i gael arian i dalu costau teithio dyddiol. Gall Dysgwyr hawlio hyd at 90% o'u costau teithio yn ôl.



**TEITHIO**
(rhwng y cartref a'r coleg)



**GWISG**
Unrhyw arian sy'n cael ei wario ar git ac offer sy'n hanfodol i gwblhau'r cwrs



**CINIO**
Gall y Lwfans Hyfforddi helpu gydag unrhyw gostau bwyd



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar **0330 111 3939** neu siaradwch â'ch **Hyfforddwr.**

Motivation & Learning TRUST
Helping young people reach their full potential.
Registered Charity Number: 1155810

# MOTIVATION & LEARNING TRUST

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu fel hwylusydd i bobl ifanc sy'n fyfyrwyr ar hyn o bryd neu sydd wedi bod yn fyfyrwyr MPCT ar ffurf cymorth ymarferol er mwyn gwella eu cyfleoedd mewn bywyd ym maes heriol cyflogaeth ac i'w galluogi i gymryd rhan yn llawn mewn cymdeithas fel oedolion cyfrifol, annibynnol ac aeddfed.

Rydym yn darparu adnoddau ymarferol ffisegol er mwyn gwella cyfleoedd pobl ifanc sy'n fyfyrwyr ar hyn o bryd neu sydd wedi bod yn fyfyrwyr MPCT er mwyn datblygu eu sgiliau, cynyddu eu cyfranogiad mewn cymdeithas a gwella eu cyflogadwyedd.

Am ragor o wybodaeth, ewch i: www.mpct.co.uk/motivation-learning-trust

# FEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH



Yn ystod y drydedd flwyddyn yn olynol, cafodd MPCT eu cynnal unwaith eto gan Bencadlys Catrodol Gatrawd Frenhinol Ffiwsilwyr yn Nhwr Llundain ar 13 Medi 2018. Gwahoddwyd Patrons a VIPs o'r ddau MPCT a'r MLT i brofi digwyddiad a noddir gan MPCT gan gynnwys sgwrs gan Tom McClean, a ddilynwyd wedyn gan y cinio a'r tystio gan yr holl arwyddion o Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU). Llofnodwyd yr MOU i sefydlu'r berthynas waith rhwng MPCT a Recriwtio Arfau'r Pencadlys, a Gorchymyn Rheoli Cychwynnol (Pencadlys ARITC), ac i nodi'r mecanwaith y gall MPCT helpu i gynyddu'r nifer o ymgeiswyr llwyddiannus sy'n ymuno â'r Fyddin. Y rhanddeiliaid a lofnododd yr MOU oedd Huw Lewis MBE (Rheolwr Gyfarwyddwr MPCT), y Prif Gyfarwyddwr Paul Nanson CBE (GOC ARITC) a Cath Possamai (Prif Swyddog Gweithredol RG). Bydd y cytundeb hwn yn golygu y bydd llawer mwy o bobl ifanc yn cael eu cefnogi, eu meithrin a'u haddysgu trwy gydweithio, gan ganiatáu iddynt gyflawni eu huchelgais i wasanaethu eu gwlad.

Roedd y noson yn ddigwyddiad llwyddiannus a pleserus iawn, lle cyflwynodd Dysgwyr o'n Colegau MPC Llundain "Ice Breakers"ardderchog ac roeddent yn creu argraff ar bawb oedd yn bresennol.



# EIN CANOLFAN GYSWLLT

Mae Cynghorwyr ein Tîm Cyfathrebu yn cynnwys grwp o bobl sy'n gweithio mewn nifer o rolau gwahanol. Yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt yw'r ffaith eu bod yno i'ch cynghori a'ch helpu mewn unrhyw ffordd y gallant. Mae rhai ohonynt yn gyn-ddysgwyr, a nhw sydd â'r wybodaeth orau am ein darpariaethau a'r ffordd y maent yn gweithio. Mae'r tîm ar gael i siarad â chi rhwng 9yb a 7yh ac maent yn edrych ymlaen at ateb eich galwad. Os byddai'n well gennych eu he-bostio, anfonwch eich ymholiad i enquiries@mpct.co.uk neu ewch i'n gwefan lle mae cyfleuster ystafell sgwrsio ar gael ar ein hafan.

Mae pob un o'n colegau yn cynnal diwrnodau agored i unrhyw un sydd â diddordeb yn ein cyrsiau. Cewch gyfle i gyfarfod â'r Hyfforddwyr, edrych ar y cyfleusterau a dysgu mwy am y cyfleoedd y gall y Coleg Paratoi ar gyfer y Fyddin ei gynnig. I gael rhagor o wybodaeth ac i drefnu eich lle, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â'r tîm.

# DIOGELU

KEEP ME SAFE

Prif amcan MPCT yw sicrhau diogelwch a llesiant ei ddysgwyr bob amser. Mae ei weledigaeth bob amser wedi ymwneud â chefnogi a datblygu pobl ifanc i gyflawni eu nodau a'u huchelgeisiau. Rydym yn cyflawni hyn drwy gyfuniad o astudio a gweithgareddau corfforol sy'n seiliedig ar ddulliau milwrol.

Rydym yn gwneud hyn drwy sicrhau bod pob aelod o'n staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddelio ag unrhyw bryder diogelu a all godi. Cânt eu cefnogi gan arweinwyr diogelu ymrwymedig ym mhob maes a'u cydlynu'n genedlaethol gan Brif Swyddog Diogelu.

Rydym yn ysgogi diwylliant o fod yn agored a thryloyw gan annog pob Dysgwr i ymgysylltu'n llawn â staff MPCT, gan roi'r hyder iddynt ddatgelu unrhyw bryderon a all fod ganddynt. Caiff unrhyw ddatgeliad a wnaed gan Ddysgwyr ei gymryd o ddifrif a chaiff y sylw priodol bob amser er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel bob amser.

Mae gan MPCT hefyd brosesau er mwyn galluogi'r atgyfeiriwr i roi gwybod am bryderon diogelwch drwy lwybrau amgen os na fydd ganddo'r hyder i siarad â Hyfforddwr yn uniongyrchol. Bydd y rhain yn cynnwys:

Cyfeiriad e-bost diogelu dynodedig **keepmesafe@mpct.co.uk**
Llinell diogelu ddynodedig gyda pheiriant ateb **02921 675537**

Yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelwch cyffredinol MPCT yw'r Prif Swyddog Diogelu sy'n annibynnol ar y colegau a bydd yn gyfrifol yn bersonol os bydd unrhyw bryderon uniongyrchol yn codi yn erbyn hyfforddwr neu aelod arall o MPCT.

**Childline:** 0800 1111 www.childline.org.uk
**NSPCC:** 0808 800 5000 www.NSPCC.org.uk

NSPCC ChildLine 0800 1111




BLACK MOUNTAIN
CLOTHING

# GWISG

Cyflenwi gwisg MPCT gan Black Mountain Clothing.



### Trowsus Cuddliw MTP

Trowsus cuddliw MTP. Noder y bydd y trowsus a gyflenwir yn rhai 'Cyflwr wedi'i Ddefnyddio Gradd 1'.

**£19.38**



### Esgidiau Ymladd

Esgidiau ymladd brown. Noder y bydd yr esgidiau a gyflenwir yn rhai 'Cyflwr wedi'i Ddefnyddio Gradd 1'.

**£39.99**




### Crys-T Polo Ysgafn

Dyluniad ar y llawes, coler o'r un defnydd gyda phlaced 3 botwm o'r un lliw. Cefn gwddf y cryd o'r un defnydd.

**£12.36**

## Bwndel a Argymhellir gan yr Hyfforddwr. £170.00



### Bwndel a Argymhellir

Mae'r bwndel yn cynnwys 2 grys-t ysgafn â gwddf crwn, 2 grys-t polo ysgafn, 1 siwmper gwddf crwn clasurol, 1 pâr o siorts perfformiad uchel, 1 siaced feddal, 1 pâr o drowsus cuddliw MTP, 1 pâr o esgidiau ymladd, 3 bib ac 1 tei neu sgarff.

## SUT I ARCHEBU EICH GWISG

I archebu eich gwisg, cysylltwch â ni

EWCH I www.bmc.london
FFON 01989 566364
E-BOST orders@bmc.london

# CWESTIYNAU CYFFREDIN

## CWESTIYNAU CYFFREDIN

**A oes angen cymwysterau arnaf i ddechrau'r cwrs?**
Nac oes. Dim ond yr agwedd gywir.

**A yw'r cwrs yn rhad ac am ddim?**
Ydy. Mae'r hyfforddiant am ddim am fod y cwrs yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

**A oes angen i mi fod yn ffit i ddechrau'r cwrs?**
Nac oes. Byddwn yn sicrhau eich bod yn gweithio ar lefel sy'n addas i chi. Bydd eich ffitrwydd yn gwella'n naturiol wrth i chi gymryd rhan mewn ymarfer corff bob dydd yn y coleg.

**A fyddaf yn cael fy nhalu?**
Mae'n bosibl y byddwch yn gymwys i gael bwrsariaeth hyfforddiant. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i https://www.gov.uk/1619- bursary-fund/further-information neu cysylltwch â ni ar 0330 111 3939.

**A fyddaf yn cael gwisg?**
Byddwch. Mae pob myfyriwr ar y rhaglen yn gwisgo lifrai'r coleg. Mae hyn yn eu gwneud yn rhan o'r tîm ac yn rhoi ymdeimlad o falchder iddynt. Caiff manylion am eich lifrai eu hesbonio ar y diwrnod cyntaf.

**A fydd angen i mi dalu am unrhyw offer?**
Yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol, gallai cymorth ariannol fod ar gael. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â ni ar 0330 111 3939.

**A yw'r cwrs yn gwrs preswyl?**
Nac ydy. Bydd angen i chi fyw gartref o hyd tra byddwch yn mynychu eich Coleg Paratoi ar gyfer y Fyddin lleol ond cewch gyfleoedd i fynd ar ymarferion dros nos.

**A fydd y cwrs yn fy helpu i ddewis gyrfa?**
Byddwch yn cael cyngor unigol ar yrfaoedd tra y byddwch ar y cwrs i'ch helpu gyda'ch dewisiadau galwedigaethol.

**A fydd yn rhaid i mi ymuno â'r fyddin os byddaf yn mynychu'r Coleg Paratoi ar gyfer y Fyddin?**
Na fydd. Cewch gefnogaeth ar gyfer pa bynnag llwybr gyrfa y byddwch yn dewis ei ddilyn. Er bod y cwrs yn seiliedig ar werthoedd milwrol, bydd yn rhoi'r hyder a'r sgiliau cyflogadwyedd i chi lwyddo mewn unrhyw yrfa rydych yn ei dewis. Byddwch hefyd yn cyflawni cymwysterau gwerthfawr.

**A fyddaf yn cael unrhyw wyliau?**
Byddwch. Byddwch yn gymwys i gael hyd at 35 diwrnod o wyliau y flwyddyn.

**Pryd y gallaf ddechrau?**
Yn wahanol i golegau traddodiadol, gallwch ddechrau unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn. Mae hyn fel arfer o fewn wythnos o wneud cais.

# EIN DARPARIAETHAU ERAILL

## Darpariaeth i Oedolion – 19-23 Lloegr yn unig

Mae'r Coleg Paratoi ar gyfer y Fyddin (MPC) yn goleg hyfforddi unigryw sy'n cynnig cyrsiau Darpariaeth i Oedolion am ddim ar gyfer oedolion di-waith rhwng 19 a 23 oed, gan eu helpu i ddatblygu eu ffitrwydd, cymwysterau galwedigaethol a sgiliau cyflogadwyedd er mwyn paratoi ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

Mae'r cwrs hyfforddi yn 15 awr yr wythnos (rhan amser) ac fe'i cynhelir dros uchafswm o 49 o wythnosau. Mae'r cwrs yn agored i unrhyw un sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ar hyn o bryd, ac fel cwrs rhan amser, ni fydd yn amharu ar unrhyw fudd-daliadau posibl; gan eich galluogi i wella eich ffitrwydd, eich addysg a'ch hyder er mwyn cyflawni eich nodau.

## Ysgol Paratoi ar gyfer y Fyddin – 13-16

Mae'r Ysgol Paratoi ar gyfer y Fyddin (MPS) yn darparu cwricwlwm am oes drwy baratoi ar gyfer dysgu gydol oes. Mae gennym gwricwlwm proffesiynol a diddorol sy'n croesawu amrywiaeth eang o ddysgwyr a all fanteisio ar ein hystod eang o opsiynau cwricwlwm a llwyddo drwy hynny.

Mae'r Dysgwyr sy'n mynychu MPS yn cael profiad dysgu unigryw. Cyflawni cymwysterau a datblygu sgiliau cyflogaeth a seiliedig ar waith hanfodol yw'r amcanion sylfaenol ar gyfer pob dysgwyr yn MPS. Mae'r dull ymarferol a holistaidd o ddysgu yn ysbrydoli, ysgogi ac addysgu pob Dysgwr i gyrraedd eu potensial.

## Coleg Chwaraeon ac Ymarfer Corff 16-19

Mae'r Coleg Chwaraeon ac Ymarfer Corff wedi'i gynllunio ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 ac 19 oed sydd am gyflawni cymwysterau a phrofiadau i ddilyn gyrfa yn y diwydiant chwaraeon a hamdden ymarferol. Rydym yn cynnig cymwysterau lefel 1, 2 a 3 yn ogystal â chyrsiau a chymwysterau ychwanegol sy'n helpu i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd ein myfyrwyr, megis 'circuits' a chyrsiau hyfforddwr campfa.

Mae hynny'n golygu - cymryd rhan, gwella eich ffitrwydd, meithrin sgiliau a chyflawni cymwysterau, cael swydd a gwneud eich gorau glas. Byddwch yn gallu manteisio ar amrywiaeth enfawr o ddigwyddiadau a gweithgareddau, gan gynnwys cyflwyniadau, hyfforddiant a mentora gan chwaraewyr proffesiynol, Olympiaid ac arbenigwyr y diwydiant.

## Prentisiaethau Chwaraeon

Mae prentisiaethau chwaraeon ar gael i unrhyw un yng Nghymru sydd dros 16 oed ac sy'n gweithio yn y diwydiant chwaraeon a hamdden ymarferol, neu'r rhai sydd am gamu i mewn i'r diwydiant chwaraeon a hamdden ymarferol drwy ymarfer corff a ffitrwydd neu hyfforddiant chwaraeon. Mae hyfforddiant prentisiaeth yn ffordd dda o wella sgiliau eich gweithlu presennol a sicrhau hefyd bod eich cyflogeion yn parhau i fod llawn cymhelliant ac yn gyfarwydd â thueddiadau cyfredol.

MPCT™

Motivational Preparation College for Training

# I GAEL RHAGOR O WYBODAETH CYSYLLTWCH Â NI HEDDIW

0330 111 3939
WWW.MPCT.CO.UK
ENQUIRIES@MPCT.CO.UK